## Cyngor Dinas Caerdydd

# Polisïau a Gweithdrefn ar gyfer Digwyddiadau Diogelu Data

**YSGOL GYFUN GYMRAEG GLANTAF**

**Rheoli'r Ddogfen**

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | YSGOL GYFUN GYMRAEG GLANTAF |
| **Teitl** | Polisïau a Gweithdrefn ar gyfer Digwyddiadau Diogelu Data |
| **Awdur** | Swyddog Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth yr Ysgol ar ran y Swyddog Diogelu Data |
| **Perchennog** | Pennaeth a'r Corff Llywodraethu |
| **Marc Diogelu** | HEB FARC DIOGELU |
| **Dyddiad Adolygu** | Yn flynyddol |

**Hanes Adolygu**

| Dyddiad Adolygu | Adolygu | Fersiwn Flaenorol | Disgrifiad o Adolygiad |
|---|---|---|---|
| 10/05/2018 | 1.0 | Dd/B | Crewyd y polisi a'i gymeradwyo |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Polisïau a Gweithdrefn ar gyfer Digwyddiadau Diogelu Data**

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae gofyn cyfreithiol i YSGOL GYFUN GYMRAEG GLANTAF, dan y ddeddfwriaeth Diogelu Data
i sicrhau diogelwch a chyfrinachedd y wybodaeth/data y mae’n ei brosesu ar ran ei chleientiaid a'i chyflogeion.

1.2 Weithiau bydd data yn cael ei golli oherwydd y caiff y wybodaeth/data hwn ei ddatgelu ar ddamwain i bersonau anawdurdodedig neu, caiff ei golli oherwydd tân neu lifogydd, neu caiff ei ddwyn o ganlyniad i ymosodiad a dargedir neu caiff dyfais gyfrifiadurol symudol ei dwyn.

## 2 Deddfwriaeth

2.1 Mae ar YSGOL GYFUN GYMRAEG GLANTAF rwymedigaeth i gadw at yr holl ddeddfwriaeth a chyfarwyddebau Ewropeaidd, gan gynnwys:

Deddf Diogelu Data 2018
y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol
Deddf Hawliau Dynol (1998)
Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (2003)

## 3 Cyfrifoldebau

3.1 Mae’r Pennaeth a’r Corff Llywodraethu, gyda chymorth y Swyddog Diogelu Data yn cadw cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau y cydymffurfir â’r weithdrefn hon, gan gynnwys cydlynu a rheoli’r ymateb i unrhyw ddigwyddiad yr adroddir arno, dogfennu'r holl gamau a gymerir, casglu tystiolaeth, a cha’r Digwyddiad, gan gynnwys goruchwylio unrhyw argymhellion/camau gweithredu o ganlyniad i’r toriad.

3.2 Mae ar bob cyflogai gyfrifoldeb i fod yn ymwybodol o Ddigwyddiadau Diogelwch posibl fel y’u diffinnir yn y Polisi hwn ac mae gofyn iddynt adrodd am bob digwyddiad, yn rhai gwirioneddol a rhai a amheuir.

3.3 Mae’n rhaid adrodd am bob digwyddiad i’r Swyddog Diogelu Data trwy RheoliGwybodaethYsgolion@caerdydd.gov.uk ar unwaith, ond heb fod yn fwy na 24 awr ar ôl cael gwybod am y digwyddiad.  Pan fydd digwyddiad yn digwydd dros benwythnos, nad ystyrir ei fod yn ddiwrnod gwaith, mae’n rhaid adrodd am y fath ddigwyddiadau heb fod yn hwyrach na hanner dydd ar y diwrnod gwaith nesaf.

3.4 Dylid adrodd trwy’r Ffurflen Ysgolion ar gyfer Adrodd am Ddigwyddiadau Diogelu Data yn Atodiad 1 y Polisi hwn. Dylid ei e-bostio i RheoliGwybodaethYsgolion@caerdydd.gov.uk

Mae’n rhaid i Benaethiaid neu staff ysgolion eu hunain **beidio** ag ymchwilio i'r hyn sy’n ymddangos fel digwyddiad.

3.5 Caiff y Swyddog Diogelu Data, mewn achosion priodol, awdurdodi swyddogion priodol i gynnal y fath ymchwiliadau. Yn y fath achosion, mae'n rhaid i adroddiadau ar y fath ddigwyddiadau gael eu gwneud ar unwaith er mwyn sicrhau y caiff y cam(au)gweithredu angenrheidiol ei gymryd yn brydlon ac y caiff yr adroddiad terfynol ei ddosbarthu i'r Swyddog Diogelu Data

3.5 Mae gofyn i staff technegol a phersonél perthnasol eraill gefnogi'r Swyddog Diogelu Data neu'r staff fel y dynodir gan y Swyddog Diogelu Data yn llawn, wrth ymdrin â Digwyddiad

## 4. Digwyddiadau Diogelu Data

4.1 Mae Digwyddiad Diogelu Data yn sefyllfa pan fydd yr Ysgol wedi colli rheolaeth dros brosesu data sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol a/neu gyfrinachol a allai arwain at drallod/difrod i'r unigolion (Gwrthrychau'r Data) y cafodd eu data ei beryglu neu'n effeithio ar fuddiannau masnachol sefydliadau trydydd parti. Nodir rhagor o fanylion am fathau o ddata ym Mholisi a Gweithdrefn Polisi a Gweithdrefn Ysgolion.

4.2 Byddai enghreifftiau o ddigwyddiadau Diogelu Data yn cynnwys colli cofnodion ar bapur sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol/gyfrinachol unigolion trydydd parti, gan gynnwys dinasyddion, busnesau, cyflogeion, plant neu rieni; mae hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif (gan gynnwys contractau). Mae enghreifftiau nodweddiadol eraill yn cynnwys colli rheolaeth ar ddogfennau sy'n cynnwys y wybodaeth uchod a anfonwyd at unigolion trydydd parti neu'n fewnol, gallai hyn gynnwys e-byst a anfonwyd at dderbynyddion anghywir neu i flychau post cyffredinol, neu ffacsys a anfonwyd i'r rhif anghywir, neu golli asedau megis gliniaduron, dyfeisiau storio, ffonau symudol ayyb.

4.3 Mae'n rhaid adrodd am unrhyw gwynion gan aelod o'r cyhoedd neu gyflogai maen nhw'n credu y mae eu data wedi gael ei dorri, na chafodd eu hawliau preifatrwydd eu cadw ar unwaith i'r Swyddfa Diogelu Data drwy RheoliGwybodaethYsgolion @caerdydd.gov.uk

4.4 Mae'n rhaid i unrhyw unigolyn sy'n dod yn ymwybodol o Ddigwyddiad Diogelu Data gwirionedd, a amheuir neu bosibl lenwi'r ffurflen adrodd am Ddigwyddiadau Diogelu Data (gweler Atodiad 1), ei hanfon at RheoliGwybodaethYsgolion@caerdydd.gov.uk AC adrodd amdano ar unwaith I'r Pennaeth.

## 5 Rheoli Digwyddiadau yr Adroddir Amdanynt

5.1 Bydd y Swyddog Diogelu Data, ar ran y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu yn logio pob digwyddiad ar unwaith ac yn logio cynnydd ymchwiliad, gan gynnwys casglu a chael unrhyw dystiolaeth berthnasol wrth i'r ymchwiliad fynd yn ei flaen.

5.2 Caiff unrhyw wybodaeth a gesglir yn ystod ymchwiliad ei thrin fel tystiolaeth bosibl mewn achos disgyblu, troseddol neu sifil. Os penderfynir ar debygolrwydd achos cyfreithiol, sifil neu droseddol, gofynnir am gymorth yr heddlu a'r gyfraith cyn gynted ag y bo modd.

5.3 Caiff yr holl dystiolaeth, mewn unrhyw fformat, ei chadw'n ddiogel gan y Swyddog Diogelu Data a fydd â chyfrifoldeb llwyr dros awdurdodi mynediad at bersonél arall fel sy'n briodol. Caiff yr holl dystiolaeth ei chadw am gyfnod o saith mlynedd.

5.4 Os digwydd bod Adroddiadau 'digwyddiad' lluosog, bydd y Swyddog Diogelu Data yn blaenoriaethu ymateb yn ôl pa mor hanfodol yw'r data sydd mewn perygl, neu risg rhagor o berygl i wrthrychau'r data. Rhestrir sut y caiff digwyddiadau eu hasesu yn Atodiad 3.

5.5 Mae'r Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am gau'r digwyddiad ar ôl i fesurau cywirol gael eu rhestr. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn gofyn am dystiolaeth o gamau yn cael eu gweithredu neu eu gwrthod a gaiff ei storio fel rhan o'r ffeil ymchwilio.

5.6. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn pennu o fewn 72 o ddigwyddiad yn digwydd, a oes angen ei adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ystyrir rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol ag arweiniad ICO sef adrodd toriadau i data personol.


5.7 Bydd y Swyddog Diogelu Data yn ystyried hawliau a rhyddid gwrthrychau data wrth ymchwilio i doriadau ac yn gwneud penderfyniad o ran a ddylid rhoi gwybod i unigolion bod eu gwybodaeth wedi'i pheryglu.

5.8 Bydd y Swyddfa Diogelu Data yn rheoli pob cwyn a dderbynnir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a lle y bo'n briodol bydd yn cyhoeddi unrhyw gwestiynau neu geisiadau i'r swyddfa Cyngor priodol, y bydd gofyn iddynt roi'r wybodaeth angenrheidiol yn ôl y cyfarwyddiadau.

## 6 Gwaith Dilynol a Chyflymu Camau gweithredu

6.1 Caiff unrhyw gamau a fydd yn codi o ddigwyddiadau eu pasio ymlaen at y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu i'w hystyried. Mae'n rhaid i'r camau gweithredu hyn gael eu gweithredu er mwyn lliniaru'r risg o ddigwyddiadau yn y dyfodol, fodd bynnag yn y pen draw mae'r ysgol fel y rheolwr data yn gyfrifol am bennu sut y caiff eu symud ymlaen.

6.2 Bydd y Swyddog Ysgolion dros Lywodraethu Gwybodaeth yn gwneud gwaith dilynol pan gaiff y camau gweithredu hyn eu cwblhau o fewn yr amserlenni a restrir yn yr adroddiadau ymchwilio.




Incident reported – Adroddwyd am y digwyddiad
Incident logging and Prioritisation – Logio a Blaenoriaethu'r Digwyddiaf
Investigation – Ymchwiliad
Resolution and Recovery – Datrys ac Adfer
Follow- up of Actions – Dilyn y Camau
Closure of Incident – Cau'r Digwyddiad

**7 Adolygu a Diweddaru**

7.1 Caiff y polisi hwn ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn neu'n fwy aml os bydd angen, er mwyn sicrhau y caiff unrhyw newidiadau i strwythur sefydliadol y Cyngor ac arferion busnes eu hadlewyrchu'n briodol yn y polisi.

**Atodiad 1**
**Ffurflen Adrodd Digwyddiad Diogelu Data**

| Ffurflen Adrodd Digwyddiad Diogelu Data mewn Ysgolion | |
|---|---|
| **Enw (yr un sy'n adrodd)** | |
| **Ysgol** | |
| **Dyddiad ac Amser y Digwyddiad** | |
| **Pennaeth** | |
| **Sut y digwyddodd y digwyddiad? Rhowch fanylion penodol** | |
| **Pa ddata sydd wedi'i ddatgelu?** | |
| **Faint o ddata personol a ddatgelwyd? e.e. faint o unigolion yr effeithiwyd arnynt?** | |
| **Os yw ar gael – ychwanegwch gopi o'r wybodaeth a ddatgelwyd heb ganiatâd** | |

| | |
|---|---|
| **A ydych wedi derbyn unrhyw gwynion yn ymwneud â'r digwyddiad hwn? Os felly, anfonwch y rhain ar e-bost i** [ysgolionllywodraethugwybodaeth@caerdydd.gov.uk](mailto:ysgolionllywodraethugwybodaeth@caerdydd.gov.uk) | |

****Ni ddylech, o dan unrhyw amgylchiadau, oedi wrth adrodd am ddigwyddiad i'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, ac ni ddylid cynnal unrhyw ymchwiliad mewnol****

****Mae'n rhaid adrodd am bob digwyddiad o fewn 24 awr****

**Dylid anfon ffurflenni cyflawn at RheoliGwybodaethYsgolion@caerdydd.gov.uk**

## Atodiad 2

## Troseddau

### 189 Cosb ar gyfer troseddau

(1) bydd person sy'n cyflawni trosedd o dan adran 1179 neu 173 neu baragraff 15 Atodlen 15 yn atebol –
(a) wedi cael collfarn ddiannod yng Nghymru a Lloegr, i ddirwy;
(b) wedi cael collfarn ddiannod yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(2) Bydd person sy'n cyflawni trosedd o dan adranau 132, 145, 170, 171, neu 181 yn atebol –
(a) wrth gael collfarn ddiannod yng Nghymru a Lloegr, i ddirwy;
(b) wedi cael collfarn ddiannod yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, i ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol;
(c) wedi cael collfarn neu dditiad, i ddirwy.

(3) Bydd isadrannau (4) a (5) yn gymwys lle y caiff person ei euogfarnu o drosedd o dan adran 170 neu 181.

(4) Caiff y llys yr euogfernir y person ganddo neu o'i flaen orchymyn bod dogfen neu ddeunydd arall yn cael ei fforffedu, ei dinistrio neu ei dileu os – (a) mae wedi cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â phrosesu'r data personol, a
(b) mae'n ymddangos i'r llys ei fod yn gysylltiedig â chyflawni'r drosedd, yn amodol ar is-adran (5).

(5) Os bydd person, heblaw am y troseddwr, sy'n hawlio mae ef/hi yw perchennog y deunydd, neu bod fel arall â diddordeb yn y deunydd, yn gwneud cais i gael ei glywed/ei chlywed gan y llys, mae'n rhaid i'r llys beidio â gwneud gorchymyn o dan isadran (4) cyn rhoi cyfle i'r person ddangos pam na ddylai'r gorchymyn gael ei wneud.

***119 Archwilio data personol yn unol â rhwymedigaethau rhyngwladol***

(1) Caiff y Comisiynydd archwilio data personol lle y bydd yr archwiliad yn angenrheidiol er mwyn cyflawni rhwymedigaeth rhyngwladol y Deyrnas Unedig, ym amodol ar y cyfyngiad yn isadran (2).

(2) Mae'r pŵer o dan isadran (1) ond yn gallu cael ei ymarfer os bydd y data personol –

(a) wedi'i brosesu yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy fodd awtomataidd, neu

(b) wedi'i brosesu mewn ffordd wahanol i drwy fodd awtomataidd ac yn ffurfiol rhan o system ffeilio neu bwriedir iddo ffurfio rhan o system ffeilio.

(6)Mae'n drosedd –
(a) i rwystro person sy'n arfer y pŵer o dan isadran (1) yn fwriadol, neu
(b) methu heb esgus rhesymol i roi cymorth i unrhyw un sy'n ymarfer y pŵer hwnnw y bydd y person ei angen yn rhesymol.

***145 Datganiadau ffug a wnaed mewn ymateb i hysbysiad gwybodaeth***

Mae'n drosedd i berson, mewn ymateb i hysbysiad gwybodaeth –
(a) gwneud datganiad y mae'r person yn gwybod sy'n ffug mewn ffordd sylweddol, neu
(b) gwneud datganiad yn ddiofal sy'n ffug mewn ffordd sylweddol.

***170 Cael ayyb data personol yn anghyfreithlon***

(1) Mae'n drosedd i berson yn ymwybodol neu'n ddiofal –
(a) cael neu ddatgelu data personol heb ganiatâd y rheolwr,
(b) caffael datgelu data personol i berson arall heb ganiatâd y rheolwr, neu
(c) ar ôl cael y data personol, ei gadw heb ganiatâd y person a oedd yn rheolwr mewn perthynas â'r data personol pan gafwyd ef.

(4) Mae'n drosedd i berson werthu data personol os bydd y person wedi cael y data o dan amgylchiadau pan fydd trosedd o dan isadran (1) wedi'i chyflawni.

(5) Mae'n drosedd i berson gynnig i werthu data os personol os bydd y person –
(a) wedi cael y data o dan amgylchiadau pan gafodd trosedd o dan isadran (1) ei chyflawni, neu;
(b) yn y pen draw yn cael y data o dan y fath amgylchiadau.

(6) At ddibenion is-adran (5), mae hysbyseb sy'n dangos bod data personol ar werth neu mae'n bosibl y bydd ar werth yn gynnig i werthu'r data.

(7) Yn yr adran hon – (a) nid yw cyfeiriadau at ganiatâd rheolwr yn cynnwys caniatâd person sy'n rheolwr trwy rinwedd Erthygl 28(10) o'r RhDDC neu adran 59(8) neu 105(3) y Ddeddf hon (caiff y prosesydd ei drin fel y rheolwr o dan rhai amgylchiadau penodol);
(b) lle y bo un neu fwy o reolwyr, mae'r fath gyfeiriadau yn gyfeiriadau at ganiatâd un neu fwy ohonynt

***171 Ail-nodi data personol a ddi-nodwyd***

(1) Mae'n drosedd i berson ail-nodi yn fwriadol neu'n ddiofal wybodaeth bersonol a gafodd ei ddi-nodi heb ganiatâd y rheolwr sy'n gyfrifol am ddi-nodi'r data personol.

(2) At ddiben yr adran hon ac adran 172 –
(a) caiff data personol ei "ddi-nodi" os cafodd ei brosesu mewn ffordd na all gael ei briodoli, i wrthrych data penodol;
(b) bod rhywun yn "ail nodi" gwybodaeth os yw'r person yn gweithredu mewn ffordd sy'n arwain at y wybodaeth heb gael ei ddi-nodi o fewn ystyr paragraff (a).

(5) Mae'n drosedd i berson brosesu data personol yn wybodus neu'n ddiofal sy'n wybodaeth a gafodd ei ail-nodi pan fydd y person yn gwneud hynny –
(a) heb ganiatâd y rheolwr sy'n gyfrifol am ddi-nodi'r data personol, a
(b) o dan amgylchiadau pan fo'r ail-nodi'n drosedd o dan isadran (1).

(8) Yn yr adran hon -
(a) nid yw cyfeiriadau i ganiatâd rheolwr yn cynnwys caniatâd person sy'n rheolwr trwy rinwedd Erthygl 208(10) y RhDDC neu adran 59(8) neu 105(3) y Ddeddf hon (caiff y prosesydd ei drin fel rheolwr o dan rai amgylchiadau penodol);
(b) pan fydd mwy nag un rheolwr, mae'r fath gyfeiriadau yn gyfeiriadau at ganiatâd un neu fwy ohonynt

***173 Newid ayyb data personol er mwyn atal datgelu***

(1) Mae isadran (3) yn gymwys lle –
(a) cafodd cais ei wneud wrth ymarfer hawl mynediad gwrthrych y data, a
(b) y byddai'r person sy'n gwneud y cais wedi bod â'r hawl i dderbyn gwybodaeth mewn ymateb i'r cais hwnnw.

(2) Yn yr adran hon, mae "hawl mynediad gwrthrych y data" yn golygu hawl o dan –
(a) Erthygl 15 y RhDDC (hawl mynediad gan wrthrych y data);
(b) Erthygl 20 y RhDDC (hawl i gludadwyedd y data);
(c) adran 45 y Ddeddf hon (prosesu gorfodi'r gyfraith: hawl mynediad gan wrthrych y data);
(d) adran 94 y Ddeddf hon (prosesu gan y gwasanaethau gwybodaeth: hawl mynediad gan wrthrych y data).